

Aeth America a`r Contras ati i danseilio`r chwyldro, gan lofruddio athrawon ysgol, llosgi a dinistrio canolfannau iechyd, a llofruddio pobl gyffredin. Cododd gwariant milwrol Nicaragua o 7% o GDP yn 1980 i 40% erbyn 1985, ac roedd llai o arian gan y Sandinista felly i wario ar gynlluniau i wella safon byw eu pobl. Ar yr un pryd roedd America yn gwario cannoedd o filiynau o ddoleri ar drechu`r chwyldro, a chael gwared ar lywodraeth ddemocrataidd mewn gwlad dramor, sofran. Yn 1987 barnodd y LLys Cyfianwder Rhyngwladol yn yr Hague bod gweithred y CIA wrth greu ac arfogi La Contra yn groes i gyfraith ryngwladol, a gorchmynodd America i ddileu`r fyddin a thalu costau o $17 biliwn i Nicaragua. Anwybyddodd America hyn. O`r barnwyr ar y Llys roedd mwyafrif enfawr yn barnu bod America`n anghywir - un yr un o Algeria, yr Ariannin, Brazil, China, Pwyl, Senegal, Norwy, Nigeria, yr Eidal, yr India, a dau o Ffrainc. Dim ond tri barnwr wnaeth ddweud nad oed UDA yn torri cyfraith ryngwladol - y rhai o Japan, Prydain a`r UDA!

Yn hytrach na thynnu allan o Nicaragua aeth America yn fwy penderfynol, a chyflwynodd flocad economaidd ar y wlad, gan orfodi llongau oedd yn cario peiriannau a nwyddau angenrheidiol i Nicaragua i droi nôl. Cafodd Oxfam America ei hatal rhag anfon hadau i`r wlad, gorfodwyd cwmni IBM i dynnu allan, ac aeth y Contra ati i fomio porthladdoedd a phibelli olew. Erbyn 1986 roedd chwyddiant yn Nicaragua yn 500%. Defnyddiodd y CIA bapur newydd La Prensa fel modd o ledaenu propaganda gwrth-chwyldroadol, a bu`n rhaid i`r Sandinista atal cyhoeddi`r papur. ROedd Reagan yn gweld Nicaragua fel symbol o beth allai ddigwydd mewn gwledydd eraill, ac roedd eisiau dysgu gwers i bobl y wlad fyddai`n ei alluogi i gadw trefn ar yr ardal gyfan. Fel y dywedodd yr Arlywydd, Daniel Ortega... *`Rydyn ni`n ymladd dros Ganolbarth America i gyd. Rydyn ni`n ymladd i gael dweud "Nid eich gardd gefn yw hwn. Ein gwlad ni ydyw"`*. Teithiodd Daniel Ortega a`i wraig i Washington i geisio siarad â Reagan ac esbonio iddo nad oedden nhw`n fygythiad i America, ond cawsant eu gwrthod gan Reagan.



Erbyn 1987 roedd llywodraeth y Sandinista yn curo`r Contra, ac arwyddwyd cadoediad rhwng y ddwy ochr. Cynhaliwyd etholiadau yn y wlad yn 1990. Wedi blynyddoedd o frwydro roedd Nicaragua mewn stad economaidd ofnadwy, a daeth y gwrth-bleidiau i gyd at ei gilydd i ffurfio ffrynt gwrth-Sandinista. Collodd y Sandinista yr etholiad yn 1990, ac eto yn 1996 a daeth Violeta Barrios de Chamoro (addysgwyd yn America) yn Arlywydd. Hi oedd perchennog La Prensa, y papur gafodd ei gau gan lywodraeth Sandinista am fod ym mhoced y CIA. Roedd y chwyldro gogoneddus ar ben - wedi cael ei drechu gan ymyrraeth Unol Daleithiau`r America. Roedd America wedi gwario biliynau o ddoleri ar derfysg economaidd, propaganda, a chreu ac arfogi`r Contra - ac wedi gwneud hynny i gyd am eu bod yn ofni llywodraeth oedd yn fodlon helpu eu pobl, ac oedd yn llywodraethu nid er eu lles eu hunain, ond er mwyn gwella safon iechyd, llythrennedd, a rhoi hawliau sifil a phleidlais i`w pobl.

Erbyn heddiw mae diweithdra yn 60% yn Nicaragua, a`r gwelliannau mawr mewn llythrennedd a gofal iechyd wedi diflannu. Pan ofynnwyd i Daniel Ortega, arweinydd `llywodraeth y beirdd a`r deallusion` pam nad oedd FSLN, plaid y bobl, yn ennill etholiadau, dywedodd *mae`n anodd trefnu pobl ddiwaith.*

Roedd chwyldro`r Sandinista yn llwyddiant serch hynny, ac yn dangos bod modd gwella bywydau pobl gyffredin a`u rhyddhau o ormes, a byddai wedi llwyddo, ac yn dal i lwyddo heblaw am weithredoedd America. Dywedodd Daniel Ortega pan gollodd etholiadau 1990....



`Rydyn ni`n gadael yn fuddugoliaethus, oherwydd rydyn ni`r Sandinistas wedi aberthu, wedi chwysu, wedi gwaedu, nid i ddal gafael mewn swyddi pwysig o fewn y llywodraeth, ond er mwyn rhoi i Nicaragua rhywbeth na chafodd ers dod yn annibynnol yn 1821..... Rydyn ni`n falch, yn y byd hwn sy`n cael ei rannu`n gyfoethog a thlawd, yn bwerus a gwan, ein bod wedi rhoi i Nicaragua ac America Ladin ychydig bach o urddas, ychydig bach o ddemocratiaeth, ac ychydig bach o gyfiawnder cymdeithasol.`

LA REVOLUCION, SE LLEVA EN EL CORAZON, PARA MORIR POR ELLA, Y NO EN LOS LABIOS, PARA VIVIR DE ELLA - NO PASARAN!

ONLY FOOLS AND JOSES

Y os por des dosos, Rodney

Eleni byddwn yn dathlu 40 mlynedd o un o raglenni sit-com (neu yn y Gymraeg sefyllfa gomiwnyddol) mwyaf poblogaidd a llwyddiannus y byd. O`r eiliad - ar Ionawr y cyntaf, 1959 - pan yrrodd Fidel Boy a`i frawd Raul i mewn i Havana mewn fan dair olwyn i ennill y chwyldro yn erbyn Batista, mae cynulleidfaoedd dros y byd i gyd wedi cwympo mewn cariad â`r grwp bach yma o chwyldroadwyr o Cuba.

Cafwyd y syniad gwreiddiol am y gyfres gan awdur o Lundain o`r enw Karl Marx. Dywedodd *"Y peth mae pawb yn hoffi am Fidel Boy yw ei fod yn ddyn bach sy`n ceisio herio`r byd. Er ei fod yn methu gyda rhai o`i syniadau, o leia mae`n palu `mlaen ac yn gwrthod rhoi mewn"*

Gyda`i sigar enfawr a`i ddywediadau bachog fel *"byddwch yn ymwybodol o hyn ymlaen mae ni sy`n rheoli Cuba, ac y byddwn yn brwydro`r grym imperialaidd ac yn herio`r rhai sy`n mynnu ein cadw mewn tlodi, ac yn ....."* mae wedi ein swyno i gyd.

la revolucion, se lleva en al corazon



Yota querra y conito, Derek

Pwy all anghofio`r glasur o bennod gafodd ei darlledu yn Hydref 1962, pan mae Fidel Boy yn prynu taflegrau niwclear `dodgy` wrth Nicky the Red, a`u cadw yn ei lock up ar y Sierra Maestra. Erbyn diwedd y bennod mae ewythr Fidel Boy sydd wastad yn son am ryfel - Uncle Sam - yn perswadio Fidel Boy i gael gwared arnynt. Neu`r bennod arall, pan fod Fidel Boy yn twyllo`r dyn busnes cefnog o America - John Kennedy, ac yn rhyddhau pawb o garchardai Cuba a`u hanfon i Miami.

CASTRO`S

Fel y dywedodd Mr Marx: *"mae Fidel Boy yn ddyn drwg sy`n hawdd i`w garu, gyda`i sigar mawr, ei ddillad gwyrdd anffasiynol, a`i areithiau 14 awr, pwy all beidio ei hoffi"*

PUSHKIN - YR ACE OF SPADES

Eleni bydd pobl Rwsia a gweddill y byd yn dathlu dau gan mlwyddiant geni Pushkin, prif fardd Rwsia ac athrylith sy`n dal yn ysbrydoliaeth i awduron, beirdd a phobl sy`n ysgrifennu`n greadigol. Mae cynifer o awduron yn ddyledus iddo am ysbrydoliaeth ers iddo farw mewn gornest yn 1837.



Ganed Pushkin ar Fai 26, 1799 ac yn ôl arfer boneddigion Rwsia ar y pryd cafodd ei fagu gan fam maeth o blith y werin - Anna Rodionolva. Oddi wrthi hi y dysgodd Pushkin iaith gyfoethog y werin datws a chasglu trysorfa o chwedlau gwerin, yn ogystal â sut i wneud roll-up teidi.



Roedd yn uchelwr ifanc a disglair ac ymhlith y cyntaf i fynd i`r Lyceé newydd ger Palas Haf y Tsar oedd wedi cael ei greu gyda`r bwriad o hyfforddi uwch-swyddogion y wlad. Ond rebel o ran natur oedd Pushkin, ac o dan ddylanwad yr ysbryd rhyddfrydol oedd yn meddwi uchelwyr Rwsia wedi`r Chwyldro Ffrengig daeth yr awdurdodau i`w amau, yn enwedig ar ôl iddo ysgrifennu cerdd oedd yn beirniadu`r drefn ac yn gwawdio Alexander I. Canlyniad hyn oll oedd iddo gael ei alltudio o`r brif ddinas a`i wneud yn filwr cyffredin ar y ffin deheuol rhwng 1820 ac 1824, ac am ddwy flynedd wedi hynny bu`n byw ymhell o gymdeithas y brif ddinas ar stâd ei fam yn Michailofscoe.

Serch hynny, pan ddaeth y Tsar Nicolai I i`r orsedd yn 1825 caniatawyd i Pushkin ddychwelyd i St. Petersburg ar yr amod y byddai`r heddlu`n ei wylio drwy`r amser. Yn 1831 priododd â Natalia Gortsharofa, merch brydferth oedd yn cael ei hedmygu`n fawr ymhlith cylchoedd ffasiynol. Cawsant bedwar o blant a bu`r teulu`n byw yn Nizhni Nofogrod, ble cyfansoddodd Pushkin ei weithiau gorau, gan gynnwys Efgeni Onegen, Boris Godarn, Y Ceiliog Aur a`r Queen of Spades.

Ond roedd Pushkin yn cael ei boeni`n fawr gan ofidiau ariannol, ac roedd yn genfigennus o`r sylw roddwyd i`w wraig gan aelodau llys y Tsar, gan gynnwys Y Tsar Nicholas ei hun. O ganlyniadi glywed sibrydion dirmygus amdani heriodd Pushkin un o aelodau`r llys i ornest, sef George d`Anthes, emigré brenhinol o Ffrainc. Cafodd ei glwyfo`n ddifrifol yn yr ornest a bu farw ar Ionawr 29, 1837 yn 37 mlwydd oed.

Ei gampwaith heb os nac onibai yw Efgeni Onegen. Ynddi mae`n cyfeirio at un o ryfeddodau peiriannyddol yr oes, sef y bont dros y Fenai oedd newydd ei chwblhau. Proffwydodd mai "*brasgamu dros y dyfroedd bydd pontydd haearn*".

FILTHY PHIL TAYLOR

Dywedodd Fyodor Dostoyevsky amdano..."*Pushkin ddaeth ar fore oes ein gwir hunan ymwybyddiaeth, a bu ei ddyfodiad o gymorth mawr i oleuo ein ffordd dywyll â golau newydd*".

Dywedodd Lemmy o Motorhead "*That`s the way I like it baby, I don`t want to live forever*".

LEMMY

LEOPOLD LOJKA

Mae`n debyg mai Leopold Lojka yw un o`r unigolion sydd wedi dylanwadu fwyaf ar hanes yr Ugeinfed Ganrif, ac eto`i gyd ychydig iawn o bobl sydd erioed wedi clywed amdano. Gyrrwr car oedd Lojka, neu`n fwy penodol roedd yn gyrru car Staf und Stift Phaeton *right hand drive* ar gyflymdra o bymtheg milltir yr awr drwy strydoedd Sarajevo ar Fehefin 28 1914. Yn seddi cefn y car roedd yr Arch Ddug Franz Ferdinand a`i wraig.



Yn ystod y bore ar y diwrnod hwnnw roedd Lojka wedi cael gwobr gan yr Arch Ddug am ei ddewrder. Wrth yrru tua neuadd y dref yn Sarajevo taflwyd bom ar fonet y car gan ddyn o`r enw Cabrinovic. Dim ond ychydig o fan anafiadau gafwyd pan rowliodd y bom i ffwrdd a ffrwydro oherwydd bod Lojka wedi ei weld yn cael ei daflu ac wedi rhoi ei droed ar y sbardun.

Serch hynny, yn ystod y prynhawn roedd yr *entourage* brenhiniol yn teithio unwaith eto yn y car. Am ryw reswm all neb esbonio hyd heddiw, trodd gyrrwr y car, Leopold Lojka, i`r cyfeiriad anghywir i lawr stryd fechan. Tra`i fod yn straffaglu gyda`r ger ac yn ceisio troi`r car rownd gwelodd dyn o`r enw Gavrilo Princip ei gyfle. Credai ei fod ef a`i gyfeillion wedi colli`r cyfle i lofruddio`r Arch Ddug - a nawr dyma fe, mewn car oedd ar stop, yn ceisio troi rownd, o fewn llathenni iddo. Doedd Princip ddim yn gallu credu pa mor lwcus ydoedd. Tynnodd bistol Browning o`i boced a saethu`r Arch Ddug a`i wraig yn farw.

Dyma`r digwyddiad wnaeth arwain at rhes ddominos o ddigwyddiadau eraill, wnaeth arwain yn y pen draw at ddechrau`r Rhyfel Byd Cyntaf, ac mae`r Rhyfel Byd Cyntaf, a`r cytundeb heddwch ar ei ddiwedd wedi dylanwadu`n drwm ar hanes gweddill ein canrif, ac yn dal i wneud. Tipyn o gyfrifoldeb ar ysgwyddau un dyn wnaeth droi i`r cyfeiriad anghywir.

A beth am Lojka wedyn? Ychydig iawn a wyddom amdano - priododdyn ystod y Rhyfel a chafodd fab yn 1918. Bu`n rhedeg tafarn am gyfnod, cyn marw yn 1926 yn 40 oed.



Cafwyd datganiad syfrdanol heddiw wrth i un o hoelion wyth y sefydliad Cymraeg, John Davies wneud datganiad cyhoeddus hollol annisgwyl. Dywedodd ei fod, ers trideg mlynedd o leiaf, wedi bod yn mynychu ystafelloedd tywyll ac anghysbell gyda phobl o`r un anian ag ef. Gall Seren tan gwmwl ddatgan bod Dr John Davies wedi cael ei weld yn diflannu drwy ddrysau adeiladau cyhoeddus sy`n fannau cyfarfod adnabyddus i bobl o`r math yma. Dywedodd, drwy ei ddagrau

"Dichon. Rhaid i fi gyfaddef y cwbwl. Ers tri deg mlynedd bellach rwyf wedi bod. rwy`n dal i fod.... YN HANESYDD"

Aeth ymlaen i ddweud "*Alla i ddim helpu fy hunan. Cyn gynted ag y bydda i`n dod ar draws clawr caled a`i fyseddu, mae`n rhaid i fi ei gael. Boed yn denau neu`n dew, yn fach neu`n fawr mae`r cynnwys yn dal i nghyffroi ac mae`n rhaid i fi balu`n ddyfnach, ac rwy`n llwyr ymgolli fy hun yn y wefr.*"



Dywedodd llefarydd ar ran Cylch, y Gymdeithas Lesbiaid a Hoywon Cymreig... "*Mae hwn wedi dod fel sioc i ni. Ro`n ni`n meddwl fod Johnny yn un ohonon ni, ond mae`n amlwg ei fod yn defnyddio`i amser i wneud pethau eraill, aflan. Pan wela i fe geith e lond ceg `da fi.*".

Mae`r stori hon wrth gwrs ynghlwm â straeon a honiadau eraill yn ddiweddar y y wasg dorfol fod maffia hoyw yn dod i reoli sefydliadau Cymru. Gwadwyd hyn gan Hoyw Jones, Prif Weithredwr S4C wrth iddo esbonio bod ganddo gyfres newydd o raglenni ar gyfer yr Hydref. Dywedodd:

"Mae ein rhaglenni yn adewyrchu profiadau pobl gyffredin, o Bute Street i Dreganna o Cathays i`r Rhath, ac rwy`n falch o ddweud y bydd y Byd a`r Boudoir, Sion a Sion, a Pobol y Cym yn rhan ganolog o`n cynlluniau. Mae S4C yn cadw`i fys ar botym Cymru"